# Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Alltraeth North Hoyle

## Canllawiau

Dylid darllen y nodiadau hyn cyn cyflwyno cais i Gronfa Gymunedol Fferm Wynt Alltraeth North Hoyle. Hefyd mae'n ddoeth edrych ar y nodiadau hyn yn ystod y broses ymgeisio.

**Rydym yn argymell cysylltu â Swyddog o Gymorth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy (CGGC) cyn mynd ati i lenwi neu gyflwyno'ch cais**.

Am ragor o gymorth neu gyngor, cysylltwch â:

**01492 523845** **e-bost: grants@cvsc.org.uk**

**Beth yw Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Alltraeth North Hoyle?**

*Fferm wynt North Hoyle yw'r fferm wynt alltraeth fasnachol gyntaf yn y DU. Mae North Hoyle yn eiddo'n llwyr i Greencoat UK Wind. Comisiynwyd y fferm wynt yn llawn yn 2004 ac mae wedi cefnogi'r gymuned leol ers dechrau gweithredu trwy ei chronfeydd cymunedol penodedig.*

*Daeth rhwymedigaeth wreiddiol y gronfa gymunedol o 20 mlynedd i ben yn 2024 ond cytunodd y bwrdd cyfarwyddwyr i barhau â'i gefnogaeth i'r gymuned leol yn wirfoddol nes bod y fferm wynt yn cael ei datgomisiynu.*

*Yn 2024, roedd cyfraniad North Hoyle i'r gronfa gymunedol yn £126,000 ac ymrwymiad North Hoyle yw cynyddu'r cyfraniad hwn yn unol â chwyddiant er mwyn sicrhau bod y gymuned yn parhau i gael ei chynnal drwy gydol oes y prosiect.*

**Cyllid:**

Grantiau o £200 - £10,000

**Themâu: Bydd angen i bob prosiect gyflawni o leiaf un or 6 thema**

Mae'r themâu yma yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/

**Thema 1: Meithrin cymunedau cadarn, cydlynol a chynaliadwy**

- Lle mae pobl yn rhannu gweledigaeth gyffredin a gwahaniaethau pobl yn cael eu gwerthfawrogi a'u derbyn
- Lle mae pobl yn cael yr un cyfleoedd dim ots beth yw eu cefndir
- Lle mae pobl o wahanol gefndiroedd yn gallu datblygu perthnasoedd positif a chadarn
- Lle mae pobl eisiau byw a gweithio nawr ac yn y dyfodol
- Cymunedau ffyniannus a bywiog sy'n gwella ansawdd bywyd pobl

GREENCOAT UK WIND CVSC

**Thema 2: Datblygu cymunedau ffyniannus a mentrus gyda thwf economaidd cadarn**

- Creu cyfleoedd gwaith newydd a/neu gynnal swyddi presennol
- Helpu pobl i ddatblygu sgiliau newydd neu wella eu sgiliau presennol
- Darparu cefnogaeth barhaus a gwasanaeth mentora i bobl sy'n dewis hyfforddiant a/neu gyflogaeth

**Thema 3: Lleihau tlodi ac anghydraddoldeb mewn cymunedau**

- Lleihau diweithdra a chynyddu incwm teuluoedd
- Gwella canlyniadau iechyd ac addysg teuluoedd sy'n byw mewn tlodi

**Pwy sy'n gymwys?**

- Cynghorau Plwyf, Cymuned a Thrêf
- Mudiadau cymdeithasol, cymunedol a 3ydd sector
- Cymdeithas rhieni ac athrawon
- Elusennau
- Clybiau chwaraeon, mentrau cydweithredol, grwpiau twristiaeth ac amgylcheddol
- Rhaid i brosiectau weithredu a chael eu darparu yn eu cyfanrwydd naill ai yn y Rhyl, Prestatyn neu Gallt Melyd

Bydd rhaid i'r Sefydliadau sydd yn yr ardal benodol fod â chyfansoddiad ysgrifenedig (e.e. cyfres o reolau neu ddogfen lywodraethu) a bydd rhaid iddynt fod â chyfrif mewn banc neu gymdeithas adeiladu (yn enw'r sefydliad) gyda o leiaf dau lofnodwr wedi'u pennu cyn ymgeisio am y grant.

**Eithriadau**

Ni fydd y canlynol yn gymwys:

- Unrhyw waith a ystyrir fel cyfrifoldeb statudol, e.e. gweithgareddau'r cwricwlwm i ysgol
- Prosiectau crefyddol eu ffocws, prosiectau sy'n cefnogi ymgyrch neu achos gan blaid wleidyddol, neu brosiectau a fydd yn dwyn anfri ar y cyllid neu'r cyllidwr
- Cyllid am yn ôl, h.y. prosiectau sydd wedi'u cwblhau eisoes, boed wedi talu amdanynt ai peidio
- Creu cronfa neu warged, i'w ddosbarthu ai peidio
- Costau cysylltiedig â 'Throsglwyddo Asedau' o Awdurdodau Lleol (h.y. costau cyfreithiol, costau ymarferoldeb ac ati.) Er hynny, ar ôl trosglwyddo'r Ased, mae'r grŵp sy'n gyfrifol am ei ddymunoldeb yn gymwys i wneud cais am grant o'r gronfa
- Ni all sefydliadau heb ddau lofnodwr (ni ddylent fod yn perthyn) ar gyfer pob trafodiad ariannol wneud cais
- Nid yw costau craidd yn gymwys - ond gall adennill costau prosiect newydd fod yn gymwys

**Llenwi'r ffurflen gais:**

**Adran 1: Amdanoch chi / eich sefydliad / eich cwmni**

- Beth yw eich rôl? (e.e. Cadeirydd, Perchennog, Ysgrifennydd)
- Pa fath o sefydliad / gwmni ydych chi? (e.e. grwp cymunedol, elusen)
- A ydych yn rhan o sefydliad ehangach neu'n gysylltiedig ag unrhyw gorff llywodraethu cenedlaethol neu elusen?

**Adran 2: Ynglŷn â'ch Prosiect**

- Dywedwch wrthym am eich prosiect. Beth ydych chi eisiau ei wneud? Pam ydych chi eisiau ei wneud? Os byddwch yn ymgymryd â'r prosiect, pa wahaniaeth fydd yn ei wneud yn eich cymuned / i'ch grŵp / yr amgylchedd / yr adeilad / i'ch aelodau?
- Dim ond drwy ddatgan yn glir beth rydych eisiau ei wneud fydd y panel yn deall eich prosiect yn iawn.
- Mae'n rhaid i chi dynnu sylw at fanteision y cynllun arfaethedig. Dim ond wedyn y gellir asesu eich cais o ran gwerth am arian.
- Peidiwch ag anghofio bod yn realistig am eich dyddiadau dechrau a gorffen. Yn aml iawn mae materion fel gwaith cynllunio a saernïol yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl.
- Cewch ysgrifennu mewn paragraffau, pwyntiau bwled neu barhau ar ddalen arall o bapur. Ceisiwch fod yn gryno a chadw at y prif bwyntiau.
- Pa dystiolaeth sydd gennych chi bod angen y prosiect? Oes gennych chi unrhyw dystiolaeth i gefnogi eich barn? Sut byddai'r cyllid hwn yn eich helpu chi i gyrraedd eich nod?
- Pa wahaniaeth fydd y prosiect yn ei wneud? (e.e. prynu offer newydd yn galluogi i ni sefydlu dosbarth newydd i famau a phlant bach neu brosiect fydd yn ein galluogi i ailagor yr adeilad gwag hwn fel neuadd i Guides a Sgowtiaid neu fydd y prosiect yn creu 30 o aelodau newydd i'r clwb/swydd newydd ac ati).

**Adran 3: Manylion Ariannol**

- Mae'r adran hon yn delio â chostau'r prosiect.
- Bydd angen 3 dyfyn-bris ar gyfer unrhyw eitem sy'n costio mwy na £5,000 a 1 dyfynbis am eitemau o dan £5,000
- Dylech restru pob eitem / elfen rydych yn ceisio cyllid ar ei chyfer.
- Cofiwch gynnwys y gost net, y TAW a chyfanswm y gost.
- Nodwch yn glir a yw eich sefydliad yn gallu adfer y TAW.
- Os ydych yn bwriadu adfer y TAW, dim ond cost net pob eitem ddylech ei nodi.
- Anogir ymgeiswyr i chwilio am gyllid cyfatebol ar gyfer eu prosiectau. Er hynny, nid yw hyn yn orfodol ac nid oes swm penodol o gyllid cyfatebol yn ofynnol.
- Rhestrwch yr holl gyllidwyr / cyllidwyr posib eraill, wedi neu heb eu cadarnhau, a'r swm yr ydych wedi gwneud cais amdano ganddynt.
- Yn olaf, ar waelod yr adran hon, nodwch faint o grant rydych chi'n gwneud cais amdano.

**Gwybodaeth angenrheidiol:**

- Mae'r gronfa yn ariannu prosiectau cyfalaf â refeniw.
- Bydd angen i grwpiau newydd sydd heb gyfrifon wedi'u harchwilio cyflwyno datganiad banc diweddar.
- Mae disgwyl i ymgeiswyr ddangos cefnogaeth gan y gymuned i'r prosiect drwy gyfrwng llythyrau neu negeseuon e-bost annibynnol (dim mwy na 5)
- Copi o ganiatâd cynllunio neu ganiatâd adeilad rhestredig os yw eich prosiect yn cynnwys gwaith adeiladu.
- Canlyniadau mesuradwy o'ch prosiect
- Bydd angen i ch gyflwyno'r wybodaeth isod:
    - Copi o gyfansoddiad y sefydliad
    - Polisïau Cyfle Cyfartal ac Iaith
    - Dyfynbrisiau neu amcangyfrifon ysgrifenedig
    - Copi o'r cyfrifon diwethaf sydd ar gael a Datganiad banc diweddar

**Wedi i chi dderbyn cynnig grant:**

Mi fyddwn yn anfon llythyr i'r un a enwir fel prif gyswllt yn amlinellu penderfyniad y panel yngymghorol. Bydd angen i'r prif gyswllt arwyddo un copi o'r llythyr / cytundeb a'i yrru yn ol i CGGC. Mae'n bwysig i chi gadw copi ar gyfer eich cofnodion chi. Os yw eich cais yn llwyddiannus, rhaid i chi gytuno i'r canlynol:

- Cyflwyno anfonebau / derbynebau am yr holl wariant
- Cyflwyno adroddiadau yn unol â phob cais (bydd y rhain yn cyfateb i faint a chymhlethdod eich prosiect)
- Defnyddio'r arian yn union fel y nodwyd yn eich cais oni bai eich bod wedi trafod a derbyn caniatad ymlaen llaw gan CGCC
- Rhoi cyhoeddusrwydd i Gronfa Gymunedol Fferm Wynt Alltraeth North Hoyle ar holl ddeunydd marchnata, gwefannau a gwefannau cymdeithasol ar gyfer y prosiect.

****COFIWCH SIARAD GYDA RHEOLWR Y GRONFA NEU SWYDDOG YN CGGC CYN CYFLWYNO'CH CAIS****

**DIOGELU DATA AC AWDURDODI DEFNYDD**

Bydd Cefnogaeth Cymunedol a Gwirfoddol Conwy (CCGC), sydd yn gweithredu ar ran Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Alltraeth North Hoyle, yn defnyddio'r wybodaeth yn eich dogfen ymgeisio, gan gynnwys eich gwybodaeth bersonol, i brosesu eich cais am gyllid. Mae hyn yn cynnwys rhannu'r wybodaeth yn llawn gyda'n partneriaid yn RWE, Greencoat a Chyngor Gwirfoddol Sir Dinbych. Bydd yr wybodaeth yn cael ei rhoi mewn bas data sy'n cael ei ddefnyddio gan CCGC a'i bartneriaid Cefnogi Trydydd Sector Cymru (mae rhagor o wybodaeth a'n hysbysiad preifatrwydd ar gael yn thirdsectorsupport.wales). Bydd yr wybodaeth yn cael ei chadw am gyfnod eich prosiect Fferm Wynt Gymunedol Alltraeth North Hoyle, ac wedyn bydd yn cael ei dinistrio'n ddiogel.

**Dychwelwch y Ffurflen Gais wedi'i llenwi a'r dogfennau ategol at:**

01492 523845 **grants@cvsc.org.uk**

GREENCOAT UK WIND

CVSC